Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

## Cynnwys


Rhagair 4

Cyflwyniad 6

Pam bod arnom ni angen Strategaeth 6

Y cyd-destun cenedlaethol 8

Mae yna nifer o fentrau rheoleiddio, strategol a pholisi sy'n effeithio ar gaffael a chomisiynu ar lefel leol a chenedlaethol. Mae'r strategaeth gaffael hon yn cydnabod hyn ac yn mapio sut y gallwn sicrhau cydymffurfiaeth lle bo angen a helpu i ddarparu canlyniadau ehangach. 8

Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 8

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 8

Datganiad Polisi Caffael Cymru 9

Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 10

Y cyd-destun lleol a rhanbarthol 13

Cynllun Corfforaethol CSDd 2022 i 2027 13

Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru 13

Cynllun Lles Sir Ddinbych 2023 i 2028 14

Strategaeth Cyngor Sir Ddinbych ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol 2021-2030 15

Heriau'r dyfodol ar gyfer caffael 16

Chwarae ein rhan i reoli gostyngiad mewn Allyriadau'r Gadwyn Gyflenwi 16

Gwella ein harferion caffael cynaliadwy 16

Disgwyliadau Llywodraeth Cymru 17

Diffygion gweithgaredd caffael o fewn gwasanaethau 17

Ymgorffori 'tryloywder yn ddiofyn' 18

Gwasanaeth Caffael Cydweithredol gyda Sir y Fflint 19

Y strategaeth 20

Egwyddorion allweddol 20

Canlyniad 1 22

Datblygu cyflenwyr lleol 22
Dulliau newydd 23
Buddion cymunedol / gwerth cymdeithasol 24
Mesur ein cynnydd ar gyfer Canlyniad 1 24

Canlyniad 2 28

Amcanion penodol 28
Lleihau ôl-troed carbon y gadwyn gyflenwi 30
Bydd cyflawni'r targed 2026/27 hwn yn golygu ein bod ar y trywydd i gwrdd â'r targed lleihau carbon Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol ar gyfer allyriadau'r gadwyn gyflenwi o 35% erbyn 2030 (14,762 tCO2e neu lai o waelodlin o 22,710 tCO2e). 31
Bydd trefn trydydd sector / cyffyrddiad ysgafn wedi dylanwadu sut mae pobl yn byw eu bywydau. [mesur] 31
Llyfrgell DPA Perfformiad 31
Y defnydd o dechnoleg 32
Rheoli contractau 33
Pobl a sgiliau 34
Contractio tymor hwy 34
Cynyddu gweithgaredd cydweithredol 35
Cadwyn gyflenwi benodedig 36
Amser i fyfyrio 36

Canlyniad 3 38

Rheoli contract 39
Pobl a sgiliau 39
Mesur ein cynnydd ar gyfer Canlyniad 3 40

Cyflawni'r strategaeth 43

Cynllun gweithredu 43
Trefniadau llywodraethu 44

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

## Rhagair

Wrth i ni brynu nwyddau, gwaith a gwasanaethau i mewn, rydym yn anelu i ddarparu'r gwerth economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol gorau i'n cymunedau tra'n cefnogi ein Cynllun Corfforaethol presennol. Bydd y Strategaeth hon yn cefnogi datblygiad caffael modern, effeithlon ac effeithiol sy'n darparu i'n cymunedau tra'n lleihau'r effaith ar y byd yr ydym yn byw ynddo.

Gyda deddfwriaeth newydd, Bil Diwygio Caffael Cyhoeddus DU a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, mae gan y Cyngor gyfle i fanteisio ar gaffael cyhoeddus mewn ffurf newydd sydd ar y gorwel, gyda'r nod o gynyddu arloesi ac ystwythder yn yr amgylchedd presennol hynod reoledig hwn, tra'n sicrhau ein bod yn defnyddio ein grym gwario yn ddoeth ac yn strategol. Gyda gwariant blynyddol oddeutu £170 miliwn ar nwyddau, gwasanaethau a gwaith a brynwyd i mewn, mae'n hanfodol ein bod yn rheoli'r cyfrifoldeb hwn i sicrhau ein bod yn cael gwerth am arian ar gyfer ein dinasyddion a chefnogi ein hamcanion corfforaethol ehangach.

Mae'r strategaeth yn cynnal y saith egwyddor allweddol, cadarn sy'n helpu i arwain ein holl weithgaredd caffael a chomisiynu. Mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys deilliannau penodol o ran cyflawni gostyngiad mewn allyriadau carbon ac ymgymryd â chaffael cynaliadwy; gan nodi disgwyliadau mesuradwy mewn perthynas â gwella cyfraniad gweithgaredd caffael a chomisiynu ar fusnesau lleol a'r economi gylchol; economi; cynyddu ein defnydd o dechnoleg i gefnogi'r cynnydd mewn dyletswyddau tryloywder sy'n dod o'r Bil Caffael; amcanion cymdeithasol ac amgylcheddol a hybu'r iaith Gymraeg a buddsoddi mewn dull cymesur ar draws y Cyngor mewn rheoli contractau.

Mae'r strategaeth hon yn cefnogi ein Cynllun Corfforaethol, gweler:

- Addewid Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd ble mae "Lleihau allyriadau carbon o'n cadwyn gyflenwi" yn cael ei nodi'n benodol.
- Mae ein fframweithiau rhanbarthol mewn gofal cymdeithasol ac adeiladu yn gallu chwarae rôl allweddol i leihau allyriadau carbon a symud y farchnad tuag at ddyfodol sero net.

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

Bydd proffil y Gwasanaeth Caffael Cydweithredol yn cael ei godi fel swyddogaeth hanfodol sy’n cefnogi’r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol.

Tai o ansawdd uchel yn Sir Ddinbych sy’n bodloni anghenion pobl

- Sir Ddinbych ffyniannus
- Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalus
- Sir Ddinbych sy’n dysgu a thyfu
- Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu’n well
- Sir Ddinbych mwy gwyrdd
- Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal
- Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu
- Cyngor sy’n cael ei gynnal yn dda, ac sy’n uchel ei berfformiad

Rydym yn cydnabod y bydd cyflawni’r strategaeth hon angen rhai newidiadau sylweddol o’r ffordd rydym yn caffael ac yn comisiynu ar hyn o bryd, ble bydd gwybodaeth gaffael ar gael i bawb ac sy’n cynnwys ymrwymiad i leihau faint o eithriadau sydd yna rhag tendro. Mae’r Cyngor wedi ymrwymo i wneud y newid hwn a bydd yn darparu arweinyddiaeth a chefnogaeth glir a fydd ei angen i sicrhau llwyddiant.

**Y Cynghorydd**
**Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol**
**Gorffennaf 2023**

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

## Cyflwyniad

### Pam bod arnom ni angen Strategaeth

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gwario oddeutu £170 miliwn y flwyddyn gyda sefydliadau sector preifat a'r trydydd sector ar nwyddau, gwasanaethau a gwaith sydd ei angen i ddarparu ein gwasanaethau cyhoeddus ar hyn o bryd. Cyfrifoldeb y Cyngor yw rheoli'r arian hwn yn effeithiol ac effeithlon. Mae'r strategaeth hon yn nodi sut yr ydym yn newid caffael a chomisiynu o fewn y Cyngor, bydd hefyd yn darparu'r weledigaeth a chyfeiriad strategol angenrheidiol i gyflawni anghenion ein cymunedau.

Bydd y strategaeth hon yn cefnogi holl swyddogion mewnol sy'n ymwneud â chomisiynu a chaffael i ddeall eu rôl yn well er mwyn cefnogi darpariaeth y strategaeth hon.

Beth fydd y Strategaeth hon yn ei wneud:

- Sefydlu cyfeiriad strategol clir a blaenoriaethau ar gyfer newid
- Sefydlu egwyddorion polisi caffael a chomisiynu allweddol
- Nodi'n glir beth yr ydym am ei wneud a pham

Mae'r Bil Diwygio Caffael Cyhoeddus newydd yn anelu i leihau'r fframwaith rheoleiddio cymhleth mae caffael a chomisiynu yn gweithredu ynddo, a chydgrynhoi oddeutu 300 o reoliadau'r UE. Mae hefyd yn cydnabod bod Caffael yn faes gyda risg uchel - gan gynnwys o bosibl effeithiau sylweddol ar ddarparu gwasanaeth, rheolaeth ariannol a chydymffurfiaeth gyfreithiol, yn ogystal ag enw da cyffredinol y Cyngor. Fodd bynnag, os ydym yn gwella tryloywder, yn agor mwy o gyfleoedd ar gyfer cystadlu, cynllunio'r cylch caffael a chomisiynu yn dda, gyda manylebau tendro sy'n glir o ran budd cymunedol a gwerth amgylcheddol a chymdeithasol ehangach, bydd yn rhoi cyfle gwell i'r Cyngor wella'r defnydd o gyflenwyr lleol a rhagolygon gwaith yn y Sir. Rydym yn anelu i wneud i hyn ddigwydd drwy ddod â chyflenwyr gyda ni mewn dull partneriaeth i leihau ein hallyriadau carbon a darparu gwerth ychwanegol i'n cymunedau lleol sy'n weladwy, a chreu system mwy syml a thryloyw sy'n ei gwneud yn haws i BBaCh ennill contractau.

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

Ble rydym arni:

- Cydweithio (CSFf/CSDd) nawr ers 9 mlynedd ac rydym yn parhau i adolygu a gweithredu gwersi a ddysgwyd.
- Bydd tendro cwbl electronig gydag adolygiad parhaus a defnydd o dechnoleg ar gael
- Gweithgaredd lleihau carbon - mae hwn yn ddull sy'n datblygu a gefnogwyd drwy benodi arbenigwr Carbon o fewn y tîm caffael. Yn dilyn y cyfnod Peilot, bydd cwestiynau gwerthuso allyriadau carbon ac adrodd ar garbon yn berthnasol i nifer cynyddol o gaffael.
- Datblygiad parhaus cyd broses safonol (ffurflenni comisiynu ac ati)
- Gwerth cymdeithasol/Budd cymunedol nawr yn fusnes fel arfer/yn cael ei ddangos yn well ac arferion gwaith da a rhannu arfer gorau ar draws y 2 Gyngor, i gyflawni amcanion strategol.
- Heriau o amgylch recriwtio a chapasiti rheoli
- Effaith etifeddiaeth Covid19
- Capasiti cadwyn gyflenwi a phwysau chwyddiant

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

## Y cyd-destun cenedlaethol

Mae yna nifer o fentrau rheoleiddio, strategol a pholisi sy’n effeithio ar gaffael a chomisiynu ar lefel leol a chenedlaethol. Mae’r strategaeth gaffael hon yn cydnabod hyn ac yn mapio sut y gallwn sicrhau cydymffurfiaeth lle bo angen a helpu i ddarparu canlyniadau ehangach.

### Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015

Fel y nodwyd yn gryno yn y Rhagair, mae’r Rheoliadau hyn yn newid drwy’r **Bil Caffael** a gyflwynwyd i’r Senedd yn Mai 2022 ac mae’n gwneud ei ffordd drwy’r Senedd ar hyn o bryd. Ochr yn ochr â datblygiad Llywodraeth Cymru o ganllawiau statudol ac Offer Statudol wedi’i alinio i Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 bydd y Cyngor yn dechrau ar ei baratoadau ar gyfer y gyfraith newydd a ddaw i rym rywbryd ganol 2024. Bydd y Gwasanaeth Caffael Cydweithredol yn hybu a darparu hyfforddiant i holl swyddogion comisiynu.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae wedi’i lunio i wneud i gyrff cyhoeddus feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, edrych i atal problemau a chymryd ymagwedd fwy cydgysylltiedig er mwyn creu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddo - yn awr ac yn y dyfodol. Mae’r Ddeddf yn nodi’r saith nod lles canlynol:

- **Cymru Ffyniannus** - Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod terfynau’r amgylchedd byd-eang, ac felly’n defnyddio adnoddau yn effeithlon ac yn gymesur ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth
- **Cymru gydnerth** - cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd bioamrywiol naturiol gydag ecosystemau iach sy'n cefnogi gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ac sydd â’r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd).

## Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

- **Cymru Iachach** - cymdeithas lle gwneir y mwyaf o les corfforol a meddyliol pobl a lle mae dewisiadau ac ymddygiad sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol yn cael eu deall.
- **Cymru sy'n fwy cyfartal** - cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau.
- **Cymru o Gymunedau Cydlynol** - cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** - cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden."
- **Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang** - cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

## Datganiad Polisi Caffael Cymru

Roedd Llywodraeth Cymru wedi lansio Datganiad Polisi Caffael Cymru 2021 (diweddarwyd Awst 2022) sy'n nodi'r egwyddorion a ddilynir gan y sector cyhoeddus wrth gaffael lles ar gyfer Cymru yn seiliedig ar amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a pholisïau allweddol Llywodraeth Cymru.

Deg egwyddor Polisi Caffael Cyhoeddus Cymru yw:

1. Byddwn yn denu gweithgaredd caffael **cydweithredol** yng Nghymru i wneud y gorau o ddeilliannau gwerth cymdeithasol ac economaidd cynaliadwy hirdymor o'r gwariant cyhoeddus
2. Byddwn yn **integreiddio** caffael o fewn datblygiad a gweithrediad polisi Cymru
3. Byddwn yn datblygu caffael cynaliadwy **hirdymor**, sy'n adeiladu ar ac yn graddio arfer gorau ac yn gosod camau clir sy'n dangos sut mae caffael yn cefnogi darpariaeth amcanion lles sefydliadol.
4. Byddwn yn codi safle a phroffil **hirdymor** y proffesiwn caffael a'i rôl fel galluogwr ar gyfer polisi caffael.
5. Byddwn yn cefnogi amcanion polisi Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â chaffael cynyddol, fel yr Economi Sylfaen a Chylchol, drwy gydweithio, ar sail lle (boed yn

genedlaethol, rhanbarthol neu'n lleol) gweithgaredd caffael sy'n cefnogi cadwyni cyflenwi lleol cadarn.

6. Byddwn yn gweithredu i **atal** newid hinsawdd drwy flaenoriaethu lleihau allyriadau carbon a dim allyriadau drwy gaffael cyfrifol a chynaliadwy i gyflawni ein huchelgais ar gyfer sector cyhoeddus sero net yng Nghymru erbyn 2030.
7. Byddwn yn alinio ein ffyrdd o weithio ac yn cynyddu **cyfraniad** rhanddeiliad i gefnogi datrysiadau arloesol a chynaliadwy drwy gaffael.
8. Byddwn yn **cydweithio** gyda rhanddeiliaid i hybu cyfleoedd cyfartal a gwaith teg yng Nghymru
9. Byddwn yn gwella'r **integreiddio** a phrofiad defnyddwyr ein datrysiadau a chyfarpar digidol, cynyddu'r defnydd o'n data caffael i gefnogi gwneud penderfyniadau.
10. Byddwn yn hybu caffael ar sail gwerth sy'n darparu'r deilliannau **hirdymor** gorau ar gyfer Cymru

## Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

Bydd y Ddeddf yn gyrru rhan o'r Rhaglen Lywodraethu gan roi Partneriaeth Gymdeithasol ar sail statudol yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn anelu i sicrhau bod gwariant ar waith, nwyddau a gwasanaethau yn cael ei wneud mewn ffordd sydd o fudd i bawb ac nid yn canolbwyntio ar gost yn unig. Mae gwaith teg yn cael ei gydnabod ac yn cefnogi egwyddorion Cymru Cyfartal a Ffyniannus. Gosod partneriaeth gymdeithasol yn ganolbwynt i ddatblygiad cymdeithasol - gwneud pethau nawr mewn ffordd sy'n cymryd i ystyriaeth yr effaith ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae'r ddyletswydd '**Caffael Cymdeithasol Gyfrifol**' yn ymwneud â gosod amcanion sefydliadol sy'n cyfrannu at les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, mwy o dryloywder ac adrodd ar ddeilliannau a rheoli contract ac atebolrwydd yn well.

### Tîm Darparu Caffael Masnachol Llywodraeth Cymru

Mae'r Cyngor wedi arwyddo Memorandwm o Ddealltwriaeth i ddefnyddio'r fframweithiau a arweinir gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol blaenorol. Fodd bynnag, nid oedd fframweithiau o'r fath bob amser yn darparu'r datrysiad lleol na rhanbarthol. Mae'r tîm Darparu Caffael Masnachol yn parhau i arwain ar restr o fframweithiau cenedlaethol ochr

yn ochr â llywodraeth leol ac yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno 'Canolfan Ragoriaeth Caffael' - a elwir yn Cyd sydd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd ac yn y camau profi ac felly mae'r potensial i ddatblygu darpariaeth cynllunio caffael y Cyngor a dull strategol cyffredinol.

## Sector Cyhoeddus Cymru Sero Net erbyn 2030

Ym mis Gorffennaf 2017 roedd Llywodraeth Cymru wedi gosod uchelgais o gyflawni sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030, sy'n cynnwys allyriadau carbon o'r gadwyn gyflenwi sector cyhoeddus. I gefnogi'r sector cyhoeddus i gyflawni sero net, roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei fap llwybr sector cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2021. Mae Map Llwybr Datgarboneiddio Sector Cyhoeddus Cymru yn darparu gorolwg strategol o'r prif feysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu a'r cerrig milltir gofynnol er mwyn i sector cyhoeddus Cymru gyrraedd allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2030. Yr uchelgais yw "erbyn 2030, fe fydd dewis di-garbon yn fater o drefn, wedi ei ymgorffori'n ddiwylliannol ac yn hunanreoleiddio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru." Mae caffael yn un o'r pedwar maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu.

Ym mis Mai 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllaw Sector Cyhoeddus ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero-Net Nod y canllaw yw datblygu set cyffredinol o gyfarwyddiadau i'w defnyddio gan gyrff cyhoeddus i gynorthwyo i gyrraedd uchelgais cyfannol 2030, yn arbennig: llinell sylfaen, nodi potensial lliniaru a monitro cynnydd. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn adrodd ar ei allyriadau cadwyn gyflenwi bob mis Medi i Lywodraeth Cymru.

Mae Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru i sero net erbyn y flwyddyn 2050 gyda system o dargedau allyriadau interim a chyllidebau carbon. Ym mis Hydref 2021, roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cyllideb Carbon 2 Sero Net Cymru (2012 i 2025). Roedd hyn yn cynnwys polisïau a chynigion ar gyfer gweithredu i'r sector cyhoeddus leihau allyriadau'r gadwyn gyflenwi gan gynnwys:

- **Polisi 76** – Dylai holl sefydliadau sector cyhoeddus ddefnyddio'r map Llwybr a Chanllaw Adrodd i ddatblygu a chyhoeddi cynlluniau erbyn Mawrth 2023 i gyflawni sector cyhoeddus sero net cyfannol erbyn 2030

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

- **Polisi 79** – Gwneud Cynlluniau Lleihau Carbon yn rhan orfodol o dendrau ar gyfer contractau caffael Llywodraeth Cymru dros £5miliwn o Ebrill 2022 a blaenoriaethu cynnyrch sy'n bosibl eu hailgylchu, amlddefnydd neu'n gallu eu defnyddio at ddiben arall fel rhan o ddull mwy cylchol ar gyfer gwastraff

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn galw ar Lywodraeth Leol i gyflwyno Cynlluniau Lleihau Carbon ar gyfer tendrau dros £25,000 a defnyddio'r Adnodd Datgarboneiddio Caffael i gefnogi ymarferion tendro.

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

## Y cyd-destun lleol a rhanbarthol

Ar lefel mwy lleol, mae'n bwysig cydnabod cyfraniad y gall caffael ei wneud i ddarparu ein dyheadau a'n blaenoriaethau.

### Cynllun Corfforaethol CSDd 2022 i 2027

Mae Cynllun Corfforaethol 2022 - 2027 yn nodi uchelgais y Cyngor nid yn unig i gynnal ansawdd ei wasanaethau, ond hefyd i'w gwella. Mae'n nodi 9 blaenoriaeth allweddol i'r Cyngor a'r cyllid ychwanegol fydd yn ofynnol i gyflawni'r uchelgais hwn. Yn amlwg, mae pa mor effeithiol y byddwn yn gwario'r arian hwnnw yn cael effaith uniongyrchol ar ein gallu i gyflawni ein hychelgais a blaenoriaethau. Felly, mae'r Cyngor yn cydnabod bod strategaeth gomisiynu a chaffael effeithiol yn hanfodol ar gyfer cyflawni llwyddiant sefydliadol ac mae'n cyfrannu at gyflawni'r Cynllun Corfforaethol, gan y bydd yn:

- cael effaith uniongyrchol ar wariant cyffredinol, arbedion, gwerth am arian a chost darparu gwasanaeth i bobl Sir Ddinbych
- helpu i ddatblygu darpariaeth gwasanaeth i ddiwallu anghenion dinasyddion, cymunedau a chwsmeriaid
- cyfrannu at gyflawni amcanion corfforaethol a gwasanaeth
- darparu dull ar gyfer cyflawni amcanion polisi allweddol

### Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru

Roedd Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru yn sefydlu'r sylfeini ar gyfer gweithio'n rhanbarthol, yn cynnwys ymrwymiad i ddarparu llais rhanbarthol cryfach drwy fodel datblygu economaidd rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys sefydlu timau rhanbarthol a datblygu Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol gan gynnwys Fframwaith Economaidd Gogledd Cymru. Mae datblygu Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn rhan hanfodol o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fodel datblygu economaidd sy'n fwy rhanbarthol, gan gefnogi twf economaidd cynhwysol a chynaliadwy, manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i fynd i'r afael ag annhegwch rhanbarthol a lleol, a chyfrannu at Nodau Lles Cymru.

## Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

Wrth ddatblygu’r fframweithiau hyn mae’n rhaid ystyried yr adferiad dybryd sydd ei angen yn sgil y pandemig coronafeirws a dyheadau hirdymor y rhanbarthau.

Mae Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn gerbyd i helpu i hyrwyddo gwaith cynllunio a darparu ar y cyd rhanbarthol ymhlith partneriaid cyhoeddus, preifat a thrydydd sector. Bydd y ddarpariaeth yn canolbwyntio ar un weledigaeth a rennir ar gyfer pob rhanbarth ac yn cael ei chefnogi gan gyfres o flaenoriaethau ac egwyddorion rhanbarthol a rennir. Mae’r cyfeiriad teithio yn cyd-fynd â Datganiad Polisi Caffael Llywodraeth Cymru 2021 a throsoledd gweithgaredd caffael cydweithredol. Felly, bydd y Strategaeth Gaffael angen gosod datganiad polisi clir ar y rwymedigaeth i gynllunio holl gaffael a chomisiynu gyda phartneriaid perthnasol, oni bai bod yna reswm da dros beidio gwneud hynny.

### Cynllun Lles Sir Ddinbych 2023 i 2028

Mae Cynllun Lles Sir Ddinbych wedi’i ddatblygu gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych. Mae’r cynllun yn canolbwyntio ar annibyniaeth a gwydnwch – cydnabod bod pobl yn annibynnol pan mae ganddynt y rhyddid i wneud y dewisiadau drostynt eu hunain a'r gallu i fyw eu bywydau heb gymorth gan eraill, a’u bod yn wydn pan maent yn defnyddio adnoddau a gwybodaeth i ymdrin â thrallod a pharatoi ar gyfer y dyfodol. Mae meysydd blaenoriaeth yn cynnwys mynd i’r afael â heriau yn ein hardaloedd gwledig; cefnogi’r unigolion sydd dan anfantais fwyaf i adeiladu eu gwydnwch; ac adeiladu capasiti cymunedau i ddatblygu a ffynnu. Bydd gan y Strategaeth Gaffael swyddogaeth allweddol i gyflawni llwyddiant yn y meysydd hyn drwy

- Ystyried sut y gallwn gydweithio neu gomisiynu mewn modd mwy integredig gyda sefydliadau partner ar gaffael neu gomisiynu i ddarparu gwasanaethau yn fwy effeithiol yn ein meysydd blaenoriaeth ac i osgoi dyblygu
- Galluogi newid fel bod y gwasanaethau a ddarperir gennym, yn hytrach na chyfyngu ar annibyniaeth a gwydnwch unigolion a chymunedau, mewn gwirionedd yn ail-gadarnhau annibyniaeth a lles pobl

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

## Strategaeth Cyngor Sir Ddinbych ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol 2021-2030

Datblygwyd Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol 2021-2030 yn dilyn datganiad Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2019. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar y Cyngor yn lleihau ei allyriadau carbon, cynyddu atafaeliad carbon a gwella bioamrywiaeth a chyfoethogrwydd rhywogaeth ei ddaliadau tir. Mae'r strategaeth yn cynnwys tri phrif darged: i'r Cyngor fod yn Sero Carbon Net erbyn 2030, i'r Cyngor fod yn Gadarnhaol yn Ecolegol erbyn 2030 ac i'r Cyngor leihau ei allyriadau cadwyn gyflenwi 35% o'i gymharu â llinell sylfaen 2019. Bydd gan y Strategaeth Gaffael swyddogaeth allweddol i gyflawni llwyddiant yn y meysydd hyn drwy:

- amlinellu gofynion yn ystod pob cam o'r cylch caffael i alluogi tendro carbon isel
- bod yn glir ar yr angen i ofyn am ddata allyriadau carbon gan gyflenwyr a monitro data allyriadau yn flynyddol fel rhan o reoli contract.
- ystyried y cyfraniadau y gall manylebau a chymalau contract ei wneud i sicrhau arferion ecolegol cadarn yn ogystal â darparu carbon isel o'r nwyddau/gwasanaethau / gwaith.

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

## Heriau'r dyfodol ar gyfer caffael

### Chwarae ein rhan i reoli gostyngiad mewn Allyriadau'r Gadwyn Gyflenwi

Mae'r gostyngiadau sy'n cael yr effaith mwyaf mewn allyriadau carbon yn cael eu cyflawni cyn y cam caffael yn y dyluniad a manylebau'r hyn sy'n cael ei gaffael. Dylunio carbon yn y fanyleb a dyluniad, strwythuro'r tendr i gefnogi deilliannau carbon isel, gwerthuso tendrau ar eu perfformiad carbon, yn dangos allyriadau a gostwng allyriad yn ystod y cam tendro a thrwy'r contract. Bydd y Gwasanaeth Caffael Cydweithredol yn gweithio gyda swyddogion comisiynu a rheolwyr contract i hybu dull di-dor i gefnogi gostyngiad mewn allyriadau cadwyn gyflenwi ac adrodd drwy reoli gontract.

Fel gwasanaeth caffael byddwn yn uchelgeisiol yn:

- chwarae ein rhan i ddosbarthu'r ffordd diofyn o wneud pethau
- annog cynllunio ymarferion tendro yn gynt.
- rhoi paramedrau a gofynion clir
- grymuso a galluogi prynwyr i fynd y tu hwnt i ofynion lleiaf
- cynhyrchu data gwirioneddol ar allyriadau carbon gan gyflenwyr yn hytrach na dibynnu ar gymarebau lefel uchel seiliedig ar wariant.

### Gwella ein harferion caffael cynaliadwy

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn achosi rhwymedigaethau statudol wedi alinio gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd canllawiau statudol yn cael eu datblygu a bydd y Gwasanaeth Caffael Cydweithredol yn rhannu canllawiau o'r fath, yn cynnig hyfforddiant ac yn cyfeirio swyddogion perthnasol at hyfforddiant a ddarperir gan y llywodraeth a throsglwyddo gwybodaeth pan fydd ar gael. Mae caffael cynaliadwy yn ganolbwynt i'r Ddeddf newydd ac yn cynnwys ffocws ar effaith ecolegol yr hyn rydym yn ei gaffael, annog economi gylchol ac ati.

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

## Disgwyliadau Llywodraeth Cymru

Mae'r adolygiad o Ddatganiad Polisi Caffael Cymru a'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn dangos yn glir y pwysigrwydd mae Llywodraeth Cymru yn ei briodoli i gaffael a'i rôl i helpu i gyflawni ei amcanion polisi - yn arbennig yn ymwneud â chydweithio, caffael â chyfrifoldeb cymdeithasol ac amgylcheddol yn seiliedig ar le.

Mae caffael cydweithredol fel arfer angen llawer mwy o adnoddau ac yn llai effeithlon na phrynu gan un awdurdod gan ei fod yn cynnwys cymaint o rhanddeiliaid a ffactorau. Bydd y gwasanaeth caffael yn aml yn dewis y llwybr gwytnwch lleiaf ac yn ddealladwy yn dymuno dod o hyd i ddatrysiad cyflym gan y farchnad am y gost a'r effaith lleiaf ar gyllidebau darparu.

Bydd y strategaeth gaffael angen ymateb i'r her hon drwy:

- Sicrhau wrth ddatblygu unrhyw ddulliau caffael neu bolisïau lleol, ein bod yn ystyriol o'r disgwyliadau a osodwyd yn Natganiad Polisi Caffael Cymru a'r rhagolygon o ddeddfwriaeth sylfaenol newydd.
- Gosod disgwyliadau corfforaethol clir a gonest mewn perthynas â chaffael cydweithredol
- Bod yn realistig o ran beth y gellir ei gyflawni ar y ddaear ac mewn ardal, yng nghyd-destun un dull rhanbarthol.

## Diffygion gweithgaredd caffael o fewn gwasanaethau

Rodd adolygiadau archwilio mewnol wedi nodi nifer o ddiffygion yn ddiweddar mewn perthynas â sut yr ymgymerir â chaffael o fewn y gwasanaethau, gan gynnwys:

- Eithriadau o dendro ac Estyniadau Contract yn gyffredinol iawn.
- Safonau anghyson o reoli contract o fewn adrannau gwasanaeth.
- Cynllunio gweithgareddau caffael gwael.
- Diffyg dealltwriaeth Rheolau'r Weithdrefn Gontractau
- Defnydd anghyson o'r gronfa ddata ganolog Proactis i gofnodi penderfyniadau a data contract.

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

Mae hyn yn aml yn arwain at ddull “ymladd tân” o fewn meysydd gwasanaeth ac o fewn y tîm caffael corfforaethol sy’n eu cefnogi, ac mewn achosion mwy eithafol yn arwain at dorri rheoliadau a chosbau ariannol cysylltiol i’r Cyngor. Mae diffyg cysondeb a chynllunio priodol hefyd yn creu dryswch i’n cyflenwyr ac mae’n gallu achosi rhwystrau iddynt gael mynediad i gyfleoedd gyda’r cyngor. Nid yw diwylliant cyffredinol o ymestyn contractau hirdymor yn ffafriol i allu ceisio gwelliant parhaus mewn ansawdd a deilliannau ond hefyd i weithio gyda’n cyflenwyr i leihau ein hôl-troed carbon ni a nhw a’r gadwyn gyflenwi yn defnyddio grym prynu i gael gwerth ychwanegol sy’n gallu cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau corfforaethol. Mae’r nod ffyniannus o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn cynnwys arloesi, drwy fynd allan i’r farchnad, mae ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau, nwyddau a gwaith yn gallu cael ei archwilio. Hefyd, mae caffael newydd, yn hytrach nag estyniadau yn galluogi cyflenwyr newydd i gysylltu â’r Cyngor a bod yn gyflenwyr posibl. Mae’n bosibl nad yw’r economi leol yn cael ei ysgogi gymaint ag y gallai os yw contractau’r un cyflenwyr yn cael eu hymestyn a’u cario drosodd.

Bydd sut yr ydym yn gwella arferion caffael a chomisiynu a diwylliant o fewn meysydd gwasanaeth yn un o’r prif heriau wrth symud ymlaen ac mae’r strategaeth angen ymateb drwy:

- Amlinellu pa fesurau a chefnogaeth fydd ar waith i gefnogi prosesau caffael gwell a chydymffurfiaeth o fewn meysydd gwasanaeth
- Manylu sut bydd mwy o drosolwg corfforaethol o weithgaredd caffael yn cael ei sefydlu i sicrhau cynllunio gwell a mwy o atebolrwydd ar gyfer materion nad ydynt yn cydymffurfio

## Ymgorffori ‘tryloywder yn ddiofyn’

Y defnydd a buddsoddiad mewn systemau digidol - Proactis a Sell2 Wales i hysbysebu tendrau - wedi dod yn fusnes fel arfer. Fodd bynnag, mae’r Bil Caffael yn cynnig mwy o dryloywder drwy’r cylch bywyd masnachol o gynllunio i gaffael, dyfarnu contract a pherfformiad, datgelu data contract gynted ag sy’n ymarferol bosibl. Cyn y cynigion hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Polisi Caffael Cyhoeddus Cymru Nodyn 02/22 fydd yn cael yr effaith o gynyddu tryloywder holl gontractau a ddyfarnwyd, gan gynnwys y

sawl a ddyfarnwyd o dan y Fframwaith a thrwy ddyfarniad uniongyrchol heb unrhyw gystadleuaeth.

Bydd y strategaeth gaffael angen ymateb i'r her hon drwy amlinellu sut fydd technoleg yn cael ei ddefnyddio i wella perfformiad a chydymffurfiaeth a pha fesurau rheoli ac adnoddau a roddir ar waith i gefnogi'r prosesau ychwanegol hyn.

## Gwasanaeth Caffael Cydweithredol gyda Sir y Fflint

Mae Gwasanaeth Caffael Cydweithredol gyda Sir y Fflint yn darparu buddion sylweddol ond mae hefyd yn cyflwyno rhai heriau. Yn ddelfrydol, byddai holl brosesau a pholisiau yn cael eu halinio'n llwyr er mwyn gwneud yn fawr o'r buddion o ran dull cyson ar gyfer gweithgaredd caffael yn fewnol gyda swyddogion y cyngor a hefyd yn allanol gyda chyflenwyr. Nid yw dulliau mewn perthynas â Buddion Cymunedol a Gwerth Cymdeithasol wedi eu halinio yn llwyr. Er y bydd strwythurau sefydliadol gwahanol, trefniadau rheoli a blaenoriaethau gwleidyddol bob amser yn cyflwyno her i aliniad llawn, dylai'r strategaeth geisio:

- Datblygu fformat y ddogfen strategaeth a deunyddiau cysylltiol mewn modd y gellir ei drosi'n hawdd ar draws ac wedi'i fabwysiadu gan Sir y Fflint
- Alinio'r prosesau a'r polisïau rhwng y ddau awdurdod gymaint â phosibl.
- Gosod sefyllfa Uwch Arweinyddiaeth ar safle 'cydweithio yn ddiofyn' mewn perthynas â chyfleoedd cydweithio posibl
- Gwneud yn fawr o'r adnoddau a gweithio mwy clyfar i gefnogi'r ddau Gyngor

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

## Y strategaeth

### Egwyddorion allweddol

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo i osod safonau ansawdd cadarn a gweithdrefnau comisiynu a chaffael cadarn i sicrhau bod holl gomisiynu a chaffael yn cael ei reoli a'i gynnal yn briodol i gydymffurfio â holl ofynion deddfwriaethol. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau fod pob punt yr ydym yn ei gwario yn darparu gwerth am arian i'r cyngor a'n preswylwyr a busnesau.

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu sut rydym yn bwriadu cyflawni'r ymrwymiad hwnnw, ond er mwyn cyflawni hyn mae'r cyngor angen i holl Staff ac Aelodau gyfrannu at gomisiynu a chaffael i gydymffurfio a hybu'r egwyddorion canlynol:

- I helpu i leihau neu ddileu gwariant nad yw'n hanfodol, bydd holl staff, cyn dechrau unrhyw weithgaredd comisiynu neu gaffael, yn gyntaf yn ystyried pa un a oes yna ddull amgen ar gyfer darparu'r canlyniad **heb yr angen i'r cyngor wario o gwbl**, neu o leiaf i leihau'r gwariant
- Wrth ymgymryd ag unrhyw weithgaredd caffael neu gomisiynu, mae'n rhaid i holl swyddogion gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 i gymryd i ystyriaeth effaith unrhyw benderfyniadau a wneir gennym ar y bobl yng Nghymru - nawr ac yn y dyfodol. Dylai'r "**egwyddor datblygu cynaliadwy**" gael ei ddefnyddio ar gyfer holl weithgaredd caffael ac yn arbennig y byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gyda'n cadwyn gyflenwi i barhau i leihau'r ôl-troed carbon ac i ddatgarboneiddio Cymru a chyfrannu at Gyfrifoldeb Byd-eang.
- Bydd pob maes gwasanaeth yn gweithio gyda'r tîm caffael corfforaethol i ddatblygu a gweithredu strategaethau a dulliau priodol ar gyfer darparu gwerth am arian yn y nwyddau, gwasanaethau neu'r gwaith maent yn ei gaffael. Bydd hyn yn cynnwys cyfleoedd **cydweithio** y sector cyhoeddus.
- Bydd pob ymarfer caffael yn cael ei reoli a'i arwain gan swyddog gyda **sgiliau** priodol i werth a risg cysylltiedig gyda'r trefniant hwnnw a chynhelir gyda gonestrwydd ac atebolrwydd.

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

- Bydd fframwaith rheoleiddio'r cyngor (rheolau'r weithdrefn contractau, dirprwyon a rheoliadau ariannol) a bydd holl ofynion cyfreithiol yn cael eu llunio gyda ac unwaith y dyfarnwyd y contract yn cael ei reoli yn unol ag **egwyddorion rheoli contract corfforaethol**.
- Sicrhewch bod ystyriaeth yn cael ei rhoi mewn holl benderfyniadau comisiynu a rhannu i ddeilliannau lles a ffyniant economaidd lleol yn unol â'r polisi presennol ar ôl cyflawni buddion cymunedol a gwerth cymdeithasol tra'n hybu effeithiau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.
- Bydd y Cyngor yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar gaffael gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol ac yn unol â Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

## Canlyniad 1

**Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gwella'r cyfraniad y mae ei weithgarwch caffael yn ei gael ar yr economi leol**

Mae gwariant y Cyngor yn ysgogwr sylweddol i ddatblygiad economaidd a chreu economi ffyniannus a llewyrchus. Fodd bynnag, mae'r angen i wneud arbedion a gwelliannau effeithlonrwydd yn ddieithriad yn arwain at ostyngiad yn y nifer o gyflenwyr a chontractwyr sy'n masnachu'n uniongyrchol gyda'r cyngor. Er mwyn sicrhau bod ein gweithgaredd caffael yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar yr economi leol, mae'n bwysig i ni edrych ar ffyrdd i wella mynediad i'r cyngor a'i gyfleoedd busnes ac i gefnogi datblygiad cyflenwyr lleol. Rydym eisiau bod yn hyderus nad yw ein polisiau a gweithdrefnau caffael yn anfanteisio busnesau lleol a'u bod yn ei chael hi'n hawdd i wneud busnes gyda ni.

Byddwn yn gweithio er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn drwy:

- Gweithio'n rhagweithiol ar ddatblygu cyflenwr lleol i sicrhau bod busnesau a'r trydydd sector yn ymwybodol o'r cyfleoedd i werthu i'r cyngor ac yn gallu cyflwyno ceisiadau o ansawdd uchel i gyfleoedd sy'n codi
- Datblygu dulliau newydd i sut rydym yn strwythuro ein cynigion i'r farchnad a chontractau cysylltiol i sicrhau ein bod yn creu cyfleoedd i fusnesau lleol i wneud cais ac o bosibl cael busnes gan y cyngor;
- Parhau i gyflawni mwy a gwell budd i'r gymuned trwy'r broses gaffael

### Datblygu cyflenwyr lleol

### Pam mae hyn yn bwysig?

Gyda'r tebygolrwydd o faint mae'r Cyngor yn ei wario ar nwyddau, gwaith a gwasanaethau yn gostwng o un flwyddyn i'r llall ar gyfer y dyfodol agos, mae hyd yn oed yn fwy pwysig i sicrhau ble rydym yn gwario mae yna gyfleoedd i fusnesau a leolir yn Sir Ddinbych i wneud cais ac ennill contractau gyda'r Cyngor. Er mwyn sicrhau mai dyma'r achos, rydym angen bod yn gweithio'n agos gyda phartneriaid allweddol fel y Ffederasiwn Busnesau Bach, Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Busnes Cymru i ddarparu'r cyngor a'r gefnogaeth

y bydd cymuned fusnes Sir Ddinbych ei angen i gyflwyno ceisiadau o ansawdd ar gyfer contractau a hysbysebir gan y Cyngor.

### Ble rydym eisiau bod

Erbyn diwedd cyfnod y strategaeth (2027) rydym eisiau dangos ein bod yn darparu mwy o gyfleoedd a gwell i fusnesau lleol brynu gan y Cyngor, bydd rhywfaint o’r camau hyn yn orfodol o dan y Deddfau Caffael newydd.

Bydd llinell sylfaen bresennol o 31% (fel gwerth) gyda busnesau Sir Ddinbych yn cael ei fonitro’n agos, yn arbennig yn sgil effaith posibl Deddfau Caffael newydd.

## Dulliau newydd

### Pam mae hyn yn bwysig?

Yn ogystal â’r gefnogaeth allanol rydym angen ei darparu i fusnesau, rydym hefyd angen edrych yn fewnol ac ystyried sut yr ydym yn cysylltu â’r farchnad ar gyfer nwyddau, gwasanaethau a gwaith rydym ei angen. Mae’r ffordd yr ydym yn gwneud hyn yn gallu cael effaith sylweddol ar pa mor ddeniadol a hygyrch fydd y cynnig hwnnw i fusnesau a leolir yn Sir Ddinbych. Er enghraifft, bydd proses gwerthuso cais a chontract sy’n cynnwys meini prawf ar gyfer gwasanaeth ar ôl gwerthu yn creu cyfleoedd i fusnesau lleol, ble na fydd contractau sy’n eithrio’r mathau hyn o ofynion yn gwneud hynny. Rydym hefyd angen gwneud yn siŵr ei fod mor rhwydd â phosibl i wneud busnes gyda ni drwy adolygu, symleiddio a safoni prosesau rydym angen i fusnesau ddilyn wrth ymgeisio i gyflenwi’r Cyngor a darparu contractau.

### Ble rydym eisiau bod

Erbyn diwedd cyfnod y strategaeth (2027) rydym eisiau bod yn hyderus nad yw ein polisiau a gweithdrefnau caffael yn anfanteisio busnesau lleol a’u bod yn ei chael hi’n hawdd i wneud busnes gyda ni.

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

## Buddion cymunedol / gwerth cymdeithasol

### Pam mae hyn yn bwysig?

Mae Sir Ddinbych yn ceisio cael gwaith a gwasanaethau drwy gaffael nwyddau gan gyflenwyr trydydd parti, gydag ymrwymiad buddion penodol sy’n cael eu targedu a’u mwynhau gan ein cymunedau. Mae ymrwymiadau buddion cymunedol o’r fath yn gallu cynnwys:

- Hyfforddiant wedi’i dargedu
- Ymrwymiad i gadwyn gyflenwi leol ac is-gontractio lleol
- Cefnogaeth i sefydliadau gwirfoddol a dan arweiniad cymunedol lleol, gan gynnwys cyfleoedd i fentrau cymdeithasol fod yn gyflenwyr neu’n isgontractwyr
- Noddi clybiau lleol, cymdeithasau a gweithgareddau trefnus eraill

Mae’r ymrwymiadau hyn yn uwch na’r disgwyl o fewn y manylebau contract e.e. lleihau carbon ac ynni, talu cyflog byw priodol, arferion gwaith teg ac ati.

### Ble rydym eisiau bod

Ar ddiwedd y strategaeth hon rydym yn dymuno parhau’r dull ‘busnes fel arfer’ buddion cymunedol a defnyddio ein profiad o’r gorffennol i gynyddu manteision a fwynheir gan ein cymunedau.

## Mesur ein cynnydd ar gyfer Canlyniad 1

### Dangosyddion lefel uchel blynyddol

| **Dangosydd** | **Llinell sylfaen 2022** | **Tueddiad a ddymunir** |
|---|---|---|
| % o wariant y cyngor gyda busnesau Sir Ddinbych | 31% | Cynyddu i 40% |

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

| Dangosydd | Llinell sylfaen 2022 | Tueddiad a ddymunir |
|---|---|---|
| % o wariant y cyngor gyda busnesau Gogledd Cymru | 52% | Cynnydd |
| % o wariant y cyngor gyda busnesau Cymru | 59% | Cynnydd |
| % o gyflenwyr a leolir yn Sir Ddinbych y mae'r Cyngor wedi gwneud taliad iddynt sydd wedi cofrestru ar y porthol e-gaffael | I'w gadarnhau | Cynnydd |
| % o gyflenwyr yn categoreiddio'r cyngor yn "dda iawn" neu'n "dda" ar ddiwedd contract mewn arolygon boddhad cyflenwr | I'w gadarnhau | Cynnydd |

## Mesurau perfformiad blynyddol i'w sefydlu

| Mesurydd perfformiad | Llinell sylfaen 2023 | Tueddiad a ddymunir |
|---|---|---|
| % o gynigion i'r farchnad gydag o leiaf un busnes a leolir yn Sir Ddinbych yn ymgeisio ar y trothwy Gwerth Isel (£10,001 i £25,000) | I'w gadarnhau | Cynnydd |
| % o gynigion i'r farchnad gydag o leiaf un busnes a leolir yn Sir Ddinbych yn ymgeisio ar y trothwy Gwerth Canolog (£25,000 i OJEU)) | I'w gadarnhau | Cynnydd |

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

| **Mesurydd perfformiad** | **Llinell sylfaen 2023** | **Tueddiad a ddymunir** |
|---|---|---|
| % o gynigion i'r farchnad gydag o leiaf un busnes a leolir yn Sir Ddinbych yn ymgeisio ar y trothwy Gwerth Uchel (OJEU) | I'w gadarnhau | Cynnydd |
| % o geisiadau a dderbyniwyd gan fusnesau a leolir yn Sir Ddinbych fel cyfran o gyfanswm ceisiadau a dderbyniwyd yn y trothwy Gwerth Isel | I'w gadarnhau | Cynnydd |
| % o geisiadau a dderbyniwyd gan fusnesau a leolir yn Sir Ddinbych fel cyfran o gyfanswm ceisiadau a dderbyniwyd yn y trothwy Gwerth Canolog | I'w gadarnhau | Cynnydd |
| % o geisiadau a dderbyniwyd gan fusnesau a leolir yn Sir Ddinbych fel cyfran o gyfanswm ceisiadau a dderbyniwyd yn y trothwy Gwerth Uchel | I'w gadarnhau | Cynnydd |
| % o geisiadau a dderbyniwyd gan fusnesau a leolir yn Sir Ddinbych fel cyfran o gyfanswm ceisiadau llwyddiannus a dderbyniwyd yn y trothwy Gwerth Isel | I'w gadarnhau | Cynnydd |
| % o geisiadau a dderbyniwyd gan fusnesau a leolir yn Sir Ddinbych fel cyfran o gyfanswm ceisiadau llwyddiannus a dderbyniwyd yn y trothwy Gwerth Canolraddol | I'w gadarnhau | Cynnydd |

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

| **Mesurydd perfformiad** | **Llinell sylfaen 2023** | **Tueddiad a ddymunir** |
|---|---|---|
| % o geisiadau a dderbyniwyd gan fusnesau a leolir yn Sir Ddinbych fel cyfran o gyfanswm ceisiadau llwyddiannus a dderbyniwyd yn y trothwy Gwerth Uchel | I'w gadarnhau | Cynnydd |
| % o gontractau a ddyfarnwyd yn y flwyddyn ariannol dros £1,000,000 gyda buddion cymunedol wedi eu cynnwys yn nogfennau'r contract | 70% ar draws holl gontractau | Cynnydd |
| % o gontractau a ddyfarnwyd yn y flwyddyn ariannol o dan £1,000,000 gyda buddion cymunedol wedi eu cynnwys yn nogfennau'r contract | 70% ar draws holl gontractau | Cynnydd |

**Sylwer:** Ble na ddarparwyd unrhyw ddata gwaelodlin, nid yw'r wybodaeth ar gael ar hyn o bryd. Dylid hefyd nodi efallai na fydd unrhyw fusnes o Sir Ddinbych yn gallu gwneud cais, oherwydd capasiti, sector neu arbenigedd sy'n ofynnol, yn arbennig ar werth uwch neu gyfleoedd arbenigol.

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

## Canlyniad 2

**Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio mewn partneriaeth â'i gadwyn gyflenwi i gyflawni lleihad o 35% er mwyn cyfrannu at y nod o gael sector cyhoeddus yn cyrraedd allyriadau carbon net sero erbyn 2030.**

Roedd y Cyngor wedi datgan Argyfwng Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol ym mis Gorffennaf 2019 ac yn 2021 mabwysiadodd Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol gyda'r nod o fod yn Gyngor Sero Net ac yn Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030, ynghyd â lleihau allyriadau'r gadwyn gyflenwi 35% o'i gymharu â gwaelodlin 2019. Roedd y strategaeth hefyd yn nodi'r tasgau gofynnol i gyflawni ein hamcanion 2030. Mae caffael a chomisiynu yn y sector cyhoeddus yn chwarae rôl bwysig i gefnogi gostyngiad allyriadau o fewn cadwyn gyflenwi'r sector. Mae targed 2029/30 wedi'i osod i leihau allyriadau'r gadwyn gyflenwi 35% o'i gymharu â gwaelodlin 2019/20. Bydd cyflawni'r targed hwn hefyd yn helpu cyfraniad y Cyngor i uchelgais polisi Llywodraeth Cymru i'r sector cyhoeddus gyrraedd allyriadau carbon sero net erbyn 2030 a'r targedau cenedlaethol statudol 2050 ar gyfer gostwng nwyon tŷ gwydr a osodwyd gan Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016. Yn ogystal, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi caniatâd ac uchelgais i'r Cyngor, yn ogystal â rhwymedigaeth gyfreithiol i weithio i gyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd..

### Amcanion penodol

Mae amcanion penodol a nodwyd yn y Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol a'u monitro o dan y Rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol yn cynnwys:

| Amcan | Disgrifiad |
|---|---|
| NCZ A27 / EP A17 | Nodi swyddogion y Cyngor sy'n caffael yn rheolaidd i dargedu cyfathrebu a hyfforddiant ar y rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol a chyfraniad caffael sy'n gyfrifol yn amgylcheddol. |

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

| Amcan | Disgrifiad |
|---|---|
| NCZ A28 | Ail-ystyried contractau rhanbarthol wrth iddynt ddod i ben gyda’r nod o leihau carbon, ble bo’n bosibl, yn y dyfodol. |
| NCZ P8 | Nodi buddion cymunedol mewn contractau’r Cyngor sy’n lleihau carbon ac yn cynyddu amsugniad carbon. |
| NCZ P7 | Sicrhau bod gostyngiad carbon yn cael ei ystyried yn briodol mewn dogfennau Polisi a Strategaeth - Caffael y Cyngor, templedi Comisiynu, gwerthusiadau tendro. |
| NCZ A25 / EP A18 | Creu banc o gwestiynau penodol yn ymwneud â charbon y gellir ei ddefnyddio yn y broses o werthuso tendrau. Bydd yn rhaid sgorio a phwysoli’r rhain yn briodol fel rhan o’r asesiad ansawdd o dendrau. |
| NCZ A30 | Byddwn yn gweithio gyda busnesau a chyflenwyr yn Sir Ddinbych i annog arferion carbon isel. |

Mae’r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol yn cael ei hadolygu bob 3 blynedd (2023/24 a 2026/27) a bydd amcanion mewn perthynas â chaffael a chomisiynu yn cael eu hychwanegu a’u newid.

## Cyflawni canlyniadau

Byddwn yn gweithio er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn drwy:

- Asesu ar gyfer y mwyafrif o drefniadau caffael a chomisiynu newydd yn ffurfiol, pa un a yw ymgeisydd yn cymryd camau i **leihau ei ôl-troed carbon** a’r camau mae’n bwriadu eu cymryd i leihau’r camau hyn ymhellach dros oes y contract

- Datblygu **llyfrgell o DPA datgarboneiddio** dros dymor y Strategaeth hon y gall Swyddogion ei defnyddio sy'n berthnasol i'w contract

- Gwneud **defnydd gwell o dechnoleg** i alluogi cyflenwyr i'n hunan-wasanaethu gyda gofynion data

- Gwella ein sgiliau **rheoli contract** a ffurfio **fframwaith rheoli contract** sy'n casglu materion rheoli carbon a data perfformiad carbon yn systematig

- Buddsoddi mewn **pobl a sgiliau** i sicrhau fod gennym weithlu medrus priodol a threfnus, sydd â'r hunan gymhelliant a gwybodaeth carbon i gyflawni datgarboneiddio drwy gaffael

- Symud i gontractio **tymor hwy** yn hytrach na chontractio tymor byr ble bo'n bosibl;

- Cynyddu ein dylanwad dros y farchnad drwy **gynyddu ein gweithgaredd cydweithredol**

- Adolygu, fel rhan o'n trefniadau cynllunio ymlaen mewn perthynas â'n **cadwyn gyflenwi benodedig,** categorïau gwario a chontractau gwerth canolig i uchel sy'n cyflwyno'r cyfle i ni weithio gyda chyflenwyr i wella eu targedau rheoli carbon o un flwyddyn i'r llall

- **Adlewyrchu mwy** ar beth fyddem wedi gallu ei wneud yn well i gael canlyniad carbon gwell y tro nesaf a rhannu'r dysgu hwnnw wrth i'r cyfle godi gydag asiantaethau eraill y sector cyhoeddus

## Lleihau ôl-troed carbon y gadwyn gyflenwi

### Pam mae hyn yn bwysig?

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Datganiad y Cyngor o Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol yn ei gwneud yn ofynnol i ni leihau allyriadau nwy tŷ gwydr yn unol â thargedau sero net. Bydd y rhwymedigaethau hyn yn gyrru cynhwysiant meini prawf asesiad rheoli carbon a geiriad cynaliadwyedd ehangach mewn contractau cadwyn gyflenwi. Ble bo'n gysylltiol ac yn gymesur i'r contract, bydd y Cyngor yn gosod pwysoliad ôl-troed carbon

gorfodol ar gyfer holl gontractau dros drothwy a gytunwyd. Mewn perthynas â phrif gontractau o werth uchel, bydd angen Cynlluniau Lleihau Carbon, gan arwain at feini prawf dethol llwyddo/methu, yn unol â chanllawiau Nodyn Polisi Caffael Cymru.

Bydd comisiynwyr yn rhan o drefniadau cytundebol a wnaed o dan y Drefn Llai Manwl neu arian grant hefyd yn rhoi ystyriaeth i gynyddu ymrwymiadau dinasyddion a newid ffordd o fyw er mwyn lleihau ôl-troed carbon unigolyn ac ymddygiad prynwyr.

### Ble rydym eisiau bod

Erbyn diwedd tymor y strategaeth (2027), byddwn yn dangos gostyngiad o 24% yn allyriadau'r gadwyn gyflenwi o'i gymharu â llinell sylfaen 2019, sy'n cyfateb i 17,411 tCO2e.

Bydd cyflawni'r targed 2026/27 hwn yn golygu ein bod ar y trywydd i gwrdd â'r targed lleihau carbon Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol ar gyfer allyriadau'r gadwyn gyflenwi o 35% erbyn 2030 (14,762 tCO2e neu lai o waelodlin o 22,710 tCO2e).

Bydd trefn trydydd sector / cyffyrddiad ysgafn wedi dylanwadu sut mae pobl yn byw eu bywydau. [mesur]

## Llyfrgell DPA Perfformiad

### Pam mae hyn yn bwysig?

Bydd y Cyngor yn aml yn gofyn 'sut' mae cyflenwr yn bwriadu perfformio ond nid yw bob amser yn nodi 'sut' mae'n dymuno i'r perfformiad hwnnw edrych. Bydd cael cyfres o DPA derbyniol defnyddiol i'r diwydiant, ond gweddol uchelgeisiol yn cynorthwyo swyddogion i ddod â manylebau ynghyd i fynd allan i'r farchnad, cyn belled nad yw hyn yn gwahaniaethu ac yn deg i bob ymgeisydd.

### Ble rydym eisiau bod

Erbyn diwedd cyfnod y strategaeth (2027), byddwn wedi datblygu banc CAMPUS (penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac amserol) cynhwysfawr o ofynion perfformiad gyda chymalau cytundebol cysylltiol sy'n rhoi 'dannedd' i'r Cyngor ysgogi

gwelliannau, boed drwy gredydau gwasanaeth neu wrthbwyso gweithgareddau; wedi'i gydbwyso yn erbyn costau'r contract.

## Y defnydd o dechnoleg

### Pam mae hyn yn bwysig?

Mae gan dechnoleg rôl allweddol i'w chwarae i gyflawni effeithiolrwydd a gwella yn y broses gaffael. Bydd defnydd effeithiol o dechnoleg newydd sy'n datblygu yn cynyddu effeithiolrwydd proses gaffael a hefyd yn galluogi casglu gwybodaeth rheoli sy'n hanfodol i gefnogi gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. O ystyried nifer y contractau fydd angen eu goruchwylio, byddwn yn ailadrodd arfer gorau ac yn adeiladu ar y dull a ddefnyddir mewn perthynas â hunan-adrodd Buddion Cymunedol o ddata blynyddol neu reolaidd arall gyda chymhelliant i gyflawni Haen 3 (Data Penodol i Gyflenwyr) gyda dewis mewn contractau allweddol i archwilio neu brofi cyflwyniadau yn unol â'r Fframwaith Rheoli Contract.

Strategaeth Ddigidol i Gymru.

### Ble rydym eisiau bod

Erbyn amser casglu data i lunio'r adroddiad blynyddol carbon nesaf i Lywodraeth Cymru e.e. erbyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol 2023/23, rydym yn dymuno cael dull mwy cywir i fesur allyriadau nwyon tŷ gwydr ar waith, gyda'r haen gyntaf o gyflenwyr a ddetholwyd (cyflenwyr contract fframwaith). Bydd hyn angen i'r cyflenwyr hynny fewnbynnu eu data i daenlen adrodd ble gallwn gasglu, dadansoddi ac adrodd ymlaen ar y data ar gyfer Allyriadau Cwmpas 3 o'r gyfran honno o'r gadwyn gyflenwi. Erbyn y flwyddyn ganlynol, rydym yn dymuno i unrhyw faterion gyda'r dull newydd gael eu datrys a gofyn i fwy o gyflenwyr ddefnyddio'r dull hwn. Rydym yn dymuno i holl gyflenwyr a gyflwynwyd yn raddol i adrodd ar eu hunion allyriadau erbyn 2026/27.

Erbyn diwedd cyfnod y strategaeth, yn ddelfrydol rydym eisiau bod yn defnyddio technoleg i ddarparu rheolaeth carbon o'r dechrau i'r diwedd i wella ansawdd a chysondeb data.

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

## Rheoli contractau

### Pam mae hyn yn bwysig?

Rydym wedi rhoi llawer o bwyslais ar y pwynt yn y broses gaffael ble rydym yn gwahodd ceisiadau a chontractau dyfarnu, ond nid bob amser ar reolaeth ddilynol y contractau hynny. Mae sicrhau bod contractau yn darparu'r hyn a ddisgwylir - o ran costau, amser, manyleb, datgarboneiddio a budd cymunedol/gwerth cymdeithasol - yn hanfodol i gyflawni gwerth am arian a chwrdd â'n rhwymedigaethau o dan Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol y Cyngor 2021-2030, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hyn angen monitro perfformiad gweithredol, rheoli contract a gorfodi dim cydymffurfiaeth a rheoli'r berthynas cyflenwr/prynwr yn rhagweithiol, yn hytrach na dull "gadael ac anghofio". Bydd holl swyddogion sy'n rheoli contractau yn rheolaidd yn derbyn yr hyfforddiant i wella eu sgiliau yn y maes hwn.

Mae pwyso ar gyflenwyr i wneud gwelliannau dros oes y contract (yn defnyddio cymal Gwelliant Parhaus) yn ffordd newydd sbon o weithio i'r Cyngor. Mae'r baich cytundebol ar y cyflenwr i nodi a gweithredu gwelliannau ond, eto mae angen rheoli contract rhagweithiol yn hytrach na dull "gadael ac anghofio", gan gynnwys adolygiadau rheolaidd gyda chyflenwr y cymal contract hwn, cyflwr y farchnad a meincnodi'r gadwyn gyflenwi. Bydd holl swyddogion sy'n rheoli contractau yn rheolaidd yn derbyn yr hyfforddiant i wella eu sgiliau yn y maes newydd hwn sy'n datblygu. Bydd y buddion i gyflenwyr sy'n gweithio gyda ni yn golygu eu bod yn fwy cystadleuol, yn barod ar gyfer ceisiadau a gyflwynir ganddynt yn y dyfodol i'r sector cyhoeddus.

### Ble rydym eisiau bod

Erbyn diwedd y cyfnod strategol, rydym yn disgwyl i holl gontractau gael eu gosod yn ôl risg ac ôl-troed carbon o fewn y Matrics Asesu Fframwaith Rheoli Contract ac yna cynyddu arweinyddiaeth contract trefniadau allyrwyr uchel/gwerth uchel. Gofynnir am adroddiadau blynyddol o ddata allyriadau carbon gan reolwyr contract a'u cwblhau gan gyflenwyr yn gywir ac yn rhagweithiol erbyn diwedd Mai bob blwyddyn gan gyfeirio at eu blwyddyn ariannol flaenorol.

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

## Pobl a sgiliau

### Pam mae hyn yn bwysig?

Mae gennym strategaeth uchelgeisiol gyda thargedau i'w cyflawni, a byddwn ond yn llwyddiannus os bydd gennym y bobl gywir, gyda'r sgiliau, cyfleoedd datblygu a chefnogaeth ar waith. Mae hyn yn berthnasol i'r swyddogion yn y tîm caffael corfforaethol, ond hefyd i swyddogion drwy gydol y cyngor sy'n ymgymryd â gweithgaredd caffael a chomisiynu.

### Ble rydym eisiau bod

Erbyn diwedd cyfnod y strategaeth, rydym eisiau cael gweithlu trefnus a medrus, sydd â'r cymhelliant a sgiliau gwybodaeth carbon i fod yn gaffaelwr gwybodus.

## Contractio tymor hwy

### Pam mae hyn yn bwysig?

Rydym yn gwybod bod llawer o gontractau yn cael eu hymestyn er gwaethaf cael eu hystyried yn rhai tymor byr o ran natur yn wreiddiol; ond os bydd y swyddog comisiynu neu gaffael yn gosod y cynnig i farchnata ar delerau realistig a'i ystyried fel rhan o'r strategaeth gaffael, pa werth ychwanegol y gallai ei gyflawni o'r dechrau, yna mae yna gwmpas i gael gwerth gwell a rheoli carbon yn well. Mae hyn hefyd yn gwella cydymffurfiaeth gyda rhwymedigaethau caffael cyfreithiol o degwch a thryloywder. Mae'n gallu cynnig effeithlonrwydd drwy arbed gwasanaeth rhag ail-gaffael yn barhaus. Mae contractau tymor hwy yn fwy deniadol i gyflenwyr yn gyffredinol a fydd yn fwy parod i edrych ar fuddsoddiad tymor hwy ar fuddsoddiad a buddsoddi mewn offer a chynnyrch carbon gyfeillgar, gan weithio gyda'u cadwyn gyflenwi eu hunain a gofynion ailadrodd. Po fwyaf deniadol y cynnig i'r farchnad, po fwyaf tebygol y bydd cystadleuaeth yn cael ei chymell a bydd y Cyngor yn derbyn ceisiadau o ansawdd gan gyflenwyr sy'n deall eu heffaith ar yr amgylchedd. Ni fydd contractau tymor hir yn addas ar gyfer holl drefniadau a bydd rhywfaint o ddarpariaeth angen cael ei chynnwys i derfynu mewn amgylchiadau penodol.

### Ble rydym eisiau bod

Erbyn diwedd cyfnod y strategaeth, rydym eisiau gweld cynnydd priodol mewn contractau tymor hwy sy’n cydbwyso gyda buddion mynd allan i farchnata i annog arloesi a chynyddu sail cyflenwr, yn arbennig sail cyflenwi lleol.

## Cynyddu gweithgaredd cydweithredol

### Pam mae hyn yn bwysig?

Mae Cyngor Sir Ddinbych bob amser wedi cefnogi caffael cydweithredol ble mae yna fuddion i’r ardal; fodd bynnag, yng nghyd-destun datgarboneiddio, mae hyn hyd yn oed yn fwy perthnasol. Fel Awdurdod Lleol cymharol fach yng Nghymru, gall gallu’r Cyngor i ddylanwadu’r farchnad a’i ymddygiad fod wedi’i gyfyngu mewn sawl maes, yn arbennig categorïau gwariant isel. Bydd y Cyngor yn blaenoriaethu ystyriaethau gwariant cyfranredol ble mae hyn yn debyg o ddylanwadu’n sylweddol ar weithgaredd datgarboneiddio. Gall hyn fod drwy gyd gaffael, yn rhanbarthol neu ar draws Cymru neu ar draws y DU; rhannu data cadwyn gyflenwi neu ymgysylltu gyda sectorau er mwyn addysgu cyflenwyr ar ein cymhellwyr rheoli carbon fydd yn ei dro yn trosi i ddarparu a pherfformiad eu contractau. Mae yna rwymedigaeth gyfreithiol i weithio’n well gydag eraill er mwyn cyflawni’r Amcanion Lles - mae’r Ddeddf yn nodi bod Cydweithio yn un o’r 5 ffordd o Weithio a bydd hyn angen cael ei arwain o’r lefelau uchaf o’r sector cyhoeddus er mwyn ei gyflawni.

### Ble rydym eisiau bod

Yn ystod cyfnod y Strategaeth hon, bydd lefel caffael cydweithredol wedi cynyddu ble mae caffael cydweithredol yn berthnasol. Mae caffael cydweithredol yn cynnwys Sir Ddinbych yn caffael gyda: Sir y Fflint, awdurdodau rhanbarthol eraill yn cael mynediad i fframweithiau lefel genedlaethol neu DU neu drefniadau prynu.

Byddwn yn gallu dangos dull seiliedig ar ganlyniadau ble mae potensial caffael cydweithredol wedi’i nodi a’i gyflawni.

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

## Cadwyn gyflenwi benodedig

### Pam mae hyn yn bwysig?

Yn hytrach nag aros nes bydd contract yn cael ei ail-gaffael, gall contractau presennol gynnwys cymal Gwelliant Parhaus priodol gan ein galluogi i gyfeirio cyflenwr i ddarparu eu perfformiad allyriadau carbon yn flynyddol, cynllun gostwng carbon neu addewid o ran sut y byddant yn lleihau allyriadau dros amser. Ble mae contract yn cael ei ymestyn, bydd hyn hefyd yn gyfle nad yw wedi'i ecsbloetio ar hyn o bryd drwy ymestyn.

### Ble rydym eisiau bod

Erbyn diwedd cyfnod y Strategaeth, byddwn wedi adolygu a nodi categorïau allyriadau carbon uchel o wariant a nodi'r cyflenwyr nwyddau a gwasanaethau hyn [drwy ddefnyddio Dangosfwrdd Datgarboneiddio Llywodraeth Cymru]. Byddwn hefyd wedi nodi categorïau gwariant gwerth uchel a blaenoriaethu'r rhain yn unol â'r Fframwaith Rheoli Contract. Byddwn wedi cymryd camau ar gyfer holl gontractau gyda chyfarwyddiadau cymal gwella parhaus i dderbyn data allyriadau carbon yn flynyddol a thargedu gostyngiad mewn allyriadau.

Byddwn wedi dangos ein bod wedi gallu rheoli allyriadau GHG i lawr mewn modd cymesur a gan leiafswm o 35%.

## Amser i fyfyrio

### Pam mae hyn yn bwysig?

Dylai swyddogion gael yr amser a'r lle i hunanasesu a myfyrio ar eu perfformiad nhw a'u sefydliadau o ran gosod a rheoli contract a lleihau allyriadau cyflenwr. Mae'n dasg heriol ac anodd i reoli cyflenwyr ac mae angen amser yn ystod cylch oes y contract ble mae gwersi yn cael eu casglu fel bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i'r tîm neu swyddog nesaf ac yn cael ei gyfieithu i'r cylch caffael nesaf a'r fanyleb. Bydd y broses hon yn cael ei systemeiddio i'r Fframwaith Rheoli Contract ac yn hygyrch.

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

## Ble rydym eisiau bod

Mae gwersi a ddysgwyd yn cael eu hadolygu gan reolwyr tîm ac yn cael eu rhannu'n eang. Mae adborth gan reolwyr contract yn adlewyrchu lefel well o hyder a gallu i gael y mwyaf allan o gontractau, ein bod yn well am gaffael ar gyfer lles pan fyddwn yn cynnal y broses dendro nesaf.

Prif ddangosydd perfformiad CSCHCORP- Cyfanswm allyriad tunelledd carbon (Corfforaethol) drwy gadwyni cyflenwi (adroddwyd yn flynyddol).

Cefnogi dangosyddion perfformiad i'w ddatblygu gan Bartner Busnes Carbon mewn cydweithrediad â thîm Newid Hinsawdd (dechrau Medi 2023)

- Nifer o gontractau yn adrodd ar union allyriadau carbon yn flynyddol
- Nifer o gontractau gyda Chynllun Lleihau Carbon
- Nifer o werthusiadau tendr yn cynnwys meini prawf cysylltiedig â charbon
- Nifer o fanylebau tendr yn cynnwys meini prawf cysylltiedig â charbon
- Nifer o swyddogion caffael / defnyddwyr system caffael sydd wedi cwblhau'r e-ddysgu "Cyflwyniad i Newid Hinsawdd"
- Nifer o reolwyr contract / defnyddwyr system rheoli contract sydd wedi llenwi'r e-ddysgu ar "Gyflwyniad i Newid Hinsawdd"

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

## Canlyniad 3

**Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cyflawni gwerth am arian o'r nwyddau, y gwasanaethau a'r gwaith mae'n eu caffael.**

Mae'r cyngor bob amser wedi cael dyletswydd i sicrhau y gallwn ddangos gwerth am arian drwy ddarparu ein gwasanaethau a gyda phwysau cyllideb cynyddol a'r angen i gydbwyso gostyngiadau costau yn erbyn y galw cynyddol ar wasanaethau, cyflawni gwerth am arian ar y nwyddau a brynwyd gennym, mae gwasanaethau a gwaith yn bwysicach nag erioed i'r cyngor. Fodd bynnag, mae'r mesurau caledi parhaus a'r rhagolygon o gyllidebau gostyngol parhaus yn golygu ein bod ni nawr angen mynd y tu hwnt i geisio gwerth am arian yn y nwyddau, gwasanaethau a gwaith rydym yn ei gaffael yn unig, a bod yn llawer mwy rhagweithiol yn ein hystyriaeth o ddewisiadau i osgoi'r angen i wario o gwbl, neu o leiaf ystyriaeth o sut y gallwn leihau faint rydym yn ei wario yn sylweddol. Yn ogystal, mae'r gost weinyddol dod o hyd, archebu a thalu am nwyddau, gwasanaethau a gwaith yn sylweddol. Felly, rydym angen sicrhau bod y ffordd yr ydym yn gweithio yn effeithiol ac effeithlon.

Byddwn yn gweithio er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn drwy:

- Ystyried **modelau darparu** gwahanol a gweithio'n fwy cydweithredol i'r gwasanaethau a ddarperir gennym sy'n lleihau neu'n dileu'r angen am wariant i'r cyngor
- Parhau i adolygu ein **prosesau** ac ymdrechu i'w gwneud mor syml â phosibl ar gyfer defnyddwyr mewnol a'n cyflenwyr, tra'n parhau i sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio'n gyfreithiol ond yn cymryd mantais llawn o'r rheolau caffael cyhoeddus mwy hyblyg gan ei gwneud yn haws i BBaCh wneud cais
- Gwneud **defnydd gwell o dechnoleg** i gyflawni effeithlonrwydd yn y broses gomisiynu a chaffael
- Gwella **rheoli contract** i sicrhau bod y contractau gennym yn cael eu darparu o fewn cyllideb ac yn unol â'r telerau ac amodau y cytunwyd arnynt, gan gynnwys darparu unrhyw fuddion cymunedol gofynnol.

- Buddsoddi mewn **pobl a sgiliau** i sicrhau fod gennym weithlu medrus priodol a threfnus, sydd â'r cymhelliant a gwydnwch i gyflawni rhagoriaeth ym mhob gweithgaredd comisiynu a chaffael.

## Rheoli contract

### Pam mae hyn yn bwysig?

Mae Deddfau caffael newydd ac sydd i ddod yn cynnwys rhwymedigaeth i hybu tryloywder a'r effaith lles a pherfformiad contractau a ddyfarnwyd. Bydd rheoli contract yn rhan o adborth parhaus a chyswllt adrodd a fydd yn llywio gweithgaredd ac effeithlonrwydd caffael yn well yn y dyfodol.

### Ble rydym eisiau bod

Erbyn diwedd cyfnod y strategaeth (2027) rydym yn disgwyl gweld cylch di-dor o 'adrodd - comisiynu - caffael - rheoli contract.' Mae caffael yn gallu ymgysylltu, cefnogi ac annog y dull hwn.

## Pobl a sgiliau

### Pam mae hyn yn bwysig?

Mae gennym strategaeth uchelgeisiol gyda thargedau i'w cyflawni, a byddwn ond yn llwyddiannus os bydd gennym y bobl gywir, gyda'r sgiliau, cyfleoedd datblygu a chefnogaeth ar waith. Mae hyn yn berthnasol i'r swyddogion yn y tîm caffael corfforaethol, ond hefyd i swyddogion drwy gydol y cyngor sy'n ymgymryd â gweithgaredd caffael a chomisiynu.

### Ble rydym eisiau bod

Erbyn diwedd cyfnod y strategaeth (2027) rydym eisiau gweithlu medrus priodol a threfnus, sydd â'r cymhelliant a gwydnwch i gyflawni rhagoriaeth ym mhob gweithgaredd caffael.

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

## Mesur ein cynnydd ar gyfer Canlyniad 3

### Dangosyddion lefel uchel blynyddol

| **Dangosydd** | **Llinell sylfaen 2022** | **Tueddiad a ddymunir** |
|---|---|---|
| Cyfanswm arbedion arian a gyflawnwyd o holl wariant drwy weithgaredd caffael (yn dibynnu ar ddatblygu mesur arbedion cadarn). | Gwaelodlin i'w sefydlu yn dilyn amcangyfrif gwell | Cynnydd |
| Cyfanswm arbedion arian a gyflawnwyd o holl wariant drwy weithgaredd caffael (yn dibynnu ar ddatblygu mesur arbedion cadarn). | Gwaelodlin i'w sefydlu yn dilyn amcangyfrif gwell | Cynnydd |
| Canran o swyddogion yn mynychu hyfforddiant caffael yn categoreiddio ansawdd yr hyfforddiant yn "dda" neu'n well. | Dim gwaelodlin | Cynnydd |
| Canran o Dîm Rheoli Canol sy'n asesu eu gwybodaeth caffael fel "da" neu gwell. | 8% | Cynnydd |
| Canran o'r Tîm Rheoli Canol sydd wedi darllen neu atgyfeirio i'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau yn y 12 mis diwethaf. | 33% | Cynnydd |
| Canran o gwsmeriaid mewnol sy'n categoreiddio'r gwasanaeth gan y tîm caffael corfforaethol fel "da" neu gwell. | Dim gwaelodlin | Cynnydd |

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

## Mesurau perfformiad blynyddol

| Mesurydd perfformiad | Gwaelodlin 2023 | Tueddiad a ddymunir |
|---|---|---|
| Canran o gontractau dros £25,000 ble mae ffurflen gomisiynu wedi'i chwblhau. | I'w gadarnhau | Cynnydd |
| Canran o gontractau dros £25,000 ble mae asesiad cynaliadwyedd wedi'i gwblhau. | I'w gadarnhau | Cynnydd |
| Canran o gontractau dros £25,000 ble mae holl ddogfennaeth ofynnol (meini prawf gwerthuso, telerau ac amodau ac ati) ar gael cyn gwahodd tendrau. | I'w gadarnhau | Cynnydd |
| Canran o gontractau dros £25,000 ble ymgymerir ag ymarfer tendro ond na wneir unrhyw ddyfarniad. | I'w gadarnhau | Gostyngiad |
| Canran o gontractau dros £25,000 ble nad yw swm y dyfarniad contract yn fwy na'r gyllideb a amcangyfrifir (yn amodol ar amcangyfrifon cadarn). | Gwaelodlin i'w sefydlu yn dilyn amcangyfrif gwell | Cynnydd |
| Canran o gontractau dros £25,000 ble nad yw cost y dyfarniad terfynol yn fwy na'r gyllideb a amcangyfrifir (yn amodol ar amcangyfrifon cadarn). | Gwaelodlin i'w sefydlu yn dilyn amcangyfrif gwell | Cynnydd |

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

| **Mesurydd perfformiad** | **Gwaelodlin 2023** | **Tueddiad a ddymunir** |
|---|---|---|
| Canran o gontractau dros £25,000 gyda chontract wedi'i lofnodi neu ei selio ar waith o fewn 6 wythnos o ddyfarnu'r contract. | Dim gwaelodlin | Cynnydd |

**Sylwer:** Ble na ddarparwyd unrhyw ddata gwaelodlin, nid yw'r wybodaeth ar gael ar hyn o bryd.

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

## Cyflawni'r strategaeth

Nid yw cyflawni'r deilliannau a ddisgrifir yn y strategaeth hon yn gyfrifoldeb un gwasanaeth neu dîm o fewn y Cyngor, ond bydd angen cyfraniadau gan bob tîm ac adran. Mae pob gwasanaeth yn caffael ac felly â chyfraniad i'w wneud i wella ein perfformiad o ran cyflawni gwerth am arian ac effaith ein gweithgaredd caffael ar yr economi leol.

### Cynllun gweithredu

Yn cyd-fynd â'r strategaeth hon mae cynllun gweithredu sy'n nodi'r camau unigol a drefnwyd er mwyn cyflawni'r deilliannau y cytunwyd arnynt. Er mwyn sicrhau eglurder, atebolrwydd ac i fonitro cynnydd yn effeithiol, bydd y Cynllun Gweithredu'n defnyddio'r egwyddorion canlynol:

- Bydd adroddiad blynyddol yn manylu perfformiad mewn perthynas â'r Mesurau Perfformiad a Dangosyddion a nodwyd yn cael ei lunio'n flynyddol gan y Tîm Caffael Corfforaethol, wedi'i dorri i lawr i wasanaethau unigol ble bynnag mae data ar gael ar y lefel hon
- Bydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei adolygu'n flynyddol gan y Tîm Caffael Corfforaethol yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad cyfeirio uchod, i sicrhau bod camau ac adnoddau yn cael eu targedu yn seiliedig ar berfformiad dros y 12 mis blaenorol
- Bydd y camau gweithredu unigol o fewn y Cynllun Gweithredu yn cael eu cofnodi a'u monitro yn defnyddio system Verto'r Cyngor

Bydd gan bob cam gweithredu un rheolwr o'r Tîm Rheolwyr Canol (TRhC) a nodwyd yn gyfrifol am sicrhau bod y cam gweithredu'n cael ei gyflawni, yn hytrach na swyddogion neu dimau unigol. Gall y rheolwr hwn ddirprwyo'r cam gweithredu, neu weithio mewn partneriaeth gydag adrannau eraill o'r Cyngor neu sefydliadau partner i gyflawni'r cam gweithredu, ond er mwyn eglurder ac atebolrwydd un enw yn unig - o'r Tîm Rheolwr Canol - fydd yn cael ei nodi yn y Cynllun Gweithredu.

# Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 i 2027

Bydd pob cam gweithredu wedi nodi'n glir pa dystiolaeth fydd yn dangos bod y cam wedi'i gwblhau. Bydd hyn yn rhoi eglurder ac yn galluogi dull cyson i fonitro defnyddio'r system Verto ble mae:

- **Gwyrdd**: cam ar y trywydd i gael ei gyflawni erbyn y dyddiad y cytunwyd arno
- **Melyn**: profi rhwystrau ac mae'n bosibl na chyflawnir erbyn y dyddiad cau y cytunwyd arno
- **Oren**: profi rhwystrau ac mae'n annhebygol iawn y cyflawnir erbyn y dyddiad cau y cytunwyd arno
- **Coch**: dyddiad cyflawni wedi mynd heibio ac mae'r cam gweithredu yn parhau'n weddill
- **Glas**: cam gweithredu wedi'i gwblhau

## Trefniadau llywodraethu

### Bwrdd Caffael Cydweithredol

Sefydlwyd ym mis Gorffennaf 2014, sefydlodd Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir y Fflint wasanaeth caffael cydweithredol wedi'i oruchwylio gan Gyd Fwrdd Cydweithredol yn derbyn llety gan Gyngor Sir Ddinbych:

- i weithredu gwasanaeth caffael corfforaethol ardderchog, medrus a rennir sy'n sicrhau bod y gefnogaeth ofynnol ar gyfer y ddau sefydliad a gwasanaethau unigol i gyflawni amcanion corfforaethol a gwasanaeth a thargedau effeithlonrwydd
- i wneud yn fawr o arbedion caffael er budd y preswylwyr a busnesau Sir Ddinbych a Sir y Fflint
- datblygu gwydnwch a gallu proffesiynol i greu tîm caffael sy'n perfformio'n dda, cyflawni budd sefydliadol a datblygiad proffesiynol personol i'r tîm

### Bwrdd Trawsnewid Caffael CSDd

O ystyried y posibilrwydd o newidiadau eithaf sylweddol mewn arferion caffael wrth i'r Bil Caffael ddatblygu, bydd Bwrdd Trawsnewid Caffael yn cael ei sefydlu i fonitro darpariaeth y strategaeth ac adolygu Rheoliadau Gweithdrefn Gaffael y Cyngor ar gefn y Bil Caffael;

darparu sianel i'r Cyngor ar gyfer adrodd am faterion neu themâu sy'n deillio o grwpiau cysylltiol fel y Bwrdd Gweithrediadau Carbon a'r Cyd Fwrdd Caffael.

### Bwrdd Gweithredol Rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol CSDd

Cynnydd yn erbyn Deilliant 1 - "Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio mewn partneriaeth gyda'i gadwyn gyflenwi i gyflawni 35% o ostyngiad a gwneud ein cyfraniad i'r sector cyhoeddus gan gyrraedd allyriadau carbon sero net erbyn 2030", yn adrodd i'r Bwrdd Gweithredol Rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol ac unrhyw faterion sy'n codi i'w datrys. Mae'r Bwrdd hwn yn darparu cyfeiriad strategol a gorolwg ar gyfer cyflawni'r Strategaeth Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol a chyflawni 35% o ostyngiad mewn carbon o'r gadwyn gyflenwi.

### Pwyllgorau'r Cyngor

Adroddir ar ddiweddariadau ar gynnydd tuag at ddeilliannau a phrif faterion hefyd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau a/neu Berfformiad.